Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel/Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn destun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Mr Simon Thomas AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1NA

**Cyfeirnod:** HVT/2737/fgb
**Dyddiad cyhoeddi:** 03 Awst 2017

Annwyl Simon

## Gwariant ar waith yn ymwneud â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn 2016-17

Yn ystod cyfarfod y Pwyllgor Cyllid ar y 7fed o Fehefin, cynigiodd fy nghydweithiwr, Matthew Mortlock, roi rhagor o fanylion ynghylch ein gwariant ar waith yn ymwneud â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn 2016-17.

Gwariwyd cyfanswm o £241,748 gennym ar weithgareddau gwahanol yn ymwneud â'r gwaith yr ydym yn ymgymryd mwyn datblygu ein dull o gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan y Ddeddf. Mae'r swm yn cynnwys:

- Amser staff (yn unol â'r Cynllun Ffioedd) - £226,743.
- Costau cysylltiedig â'r gynhadledd a gynhaliwyd gennym ar y cyd gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ym mis Tachwedd 2016 - £15,005 yn cynnwys TAW

Roedd y gwariant hwn yn cymharu â chostau amcangyfrifedig o £422,000, fel y dangoswyd yn amcangyfrif 2016-17 ac a ystyriwyd gan y Pwyllgor Cyllid yn y Pedwerydd Cynulliad. Y rheswm allweddol am y tanwariant, fel y soniais yn fy nhystiolaeth i'r Pwyllgor ym mis Tachwedd 2016, yw ein bod wedi cymryd camau'n fwriadol i gefnogi'r Comisiynydd newydd drwy gytuno ar drefniadau i'n rheolwr arweiniol ni, oedd â gwybodaeth helaeth am ddatblygu cynaliadwy, symud i swyddfa'r Comisiynydd. Effaith ddilynol anochel hyn oedd cyfnod o oedi, wrth geisio dod o hyd i reolwr prosiect oedd â'r profiad addas i gymryd drosodd. O ganlyniad, cafwyd tanwariant ar gyflog ac argostau ynghyd â chostau cyflawni, fyddai wedi cael eu hachosi fel arall ac a oedd wedi eu cynllunio gennym ar amser llunio'r Amcangyfrif.

Er mwyn rhoi'r ffigurau hyn yng nghyd-destun ein sefyllfa ariannol gyffredinol, fe wnaethom adrodd am danwariant o £192,000 ynghyd â £28,000 o gyfalaf yn 2016-17. Fodd bynnag, oherwydd addasiadau heb fod yn arian parod, fe wnaethom ddychwelyd £495,000 yn ddiweddar i Gronfa Gyfunol Cymru.

Gobeithiaf y bydd y wybodaeth hon o gymorth i'r Pwyllgor cyn unrhyw graffu pellach ar ein Hadroddiad Blynyddol a'n Cyfrifon am 2016-17.

Yn gywir

**HUW VAUGHAN THOMAS**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**